Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Cyd-bwyllgor Archwilio** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys yr Heddlu** |
| **Dyddiad:** | **30 Tachwedd 2018** |
| **Amser:** | **14:00 – 15:30** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Malcolm MacDonald (MM)<br>Mr Martin Evans (ME)<br>Mr Andre Morgan (AM)<br>Mr Alasdair Kenwright (AMSK) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mr Mark Collins, Y Prif Gwnstabl (PG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (PS)<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Ms Leanne Malough, Swyddfa Archwilio Cymru (LM)<br>Mr Jonathan Maddock, TIAA (JM)<br>Miss Caryl Bond, Swyddog Cymorth Sicrwydd |
| **Ymddiheuriadau:** | Ms Vicky Davies, TIAA (VD)<br>Mr Jason Blewitt, Swyddfa Archwilio Cymru (JB) |
| **Datganiadau o Ddiddordeb:** | Dim. |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18 MEDI 2018 | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan | Cynnydd |
| **A66 2017/18** | **TIAA i dynnu enw unigolyn o waelod tudalen 20 yr adroddiad.** | **TIAA** | **Cwblhawyd** |
| **A67 2017/18** | **SCHTh i anfon dyddiadau diwrnod Hyfforddi mis Chwefror at SC i wirio argaeledd.** | **SCHTh** | **Cwblhawyd** |
| **A70 2017/18** | **Cynnwys y sgôr blaenorol ar gyfer risg wedi'i lliniaru ar gyfer pob eitem ar adroddiad y gofrestr risg yn ogystal â sgôr presennol y risg wedi'i lliniaru.** | **Yr Heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **A73 2017/18** | **SCHTh i anfon copi o adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r adroddiad cryno ar gynaladwyedd ariannol i Aelodau.** | **SCHTh** | **Cwblhawyd** |

Croesawodd MM bawb i'r cyfarfod, gan roi croeso arbennig i Leanne Malough, a oedd yn bresennol yn lle JB o Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar ran yr aelodau, gofynnodd MM i'r PG fynegi eu diolch i'r cyn Ddirprwy Brif Gwnstabl, a adawodd y sefydliad yn ddiweddar.

Cyflwynwyd ymddiheuriadau ar ran Jason Blewitt a Vicky Davies.

**A74 2017/18 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018 a Materion yn Codi.**

Nododd AK fod camgymeriad teipio ar waelod tudalen 11 o'r copi Saesneg o'r cofnodion, a bod angen newid y gair '*breeches'* i '*breaches'*.

**Cam Gweithredu A74: Cywiro'r camgymeriad teipio ar waelod tudalen 11 o'r copi Saesneg o'r cofnodion fel y trafodwyd.**

Mewn perthynas â cham gweithredu sy'n parhau ynglŷn â chael adroddiad cymharol o Safonau'r Gymraeg, sef cam gweithredu A60, nododd JM yr hoffai fynd nôl â hyn ac edrych i'r mater ymhellach gan fod pob adroddiad o'r ardaloedd wedi'u cwblhau erbyn hyn.

Nododd y PS fod un eitem yn arbennig sy'n poeni'r PG a'r CHTh, sef eitem sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfweliadau mewn dalfeydd. Mae hyn yn broblem sydd wedi'i nodi ymysg y pedwar heddlu yng Nghymru. Byddai'n ddiddorol gweld pa un ai a oes pryderon cyffredin wedi'u nodi trwy'r archwiliad.

Trafodwyd y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. Mae camau gweithredu A66, A67, A70 a A73 wedi'u cwblhau. Mewn perthynas ag A67, esboniodd y PS fod y dyddiad ar gyfer y diwrnod hyfforddi blynyddol ym mis Chwefror wedi'i rannu drwy e-bost.

**Penderfyniad A74: Yn amodol ar y diwygiad a nodwyd, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.**

Esboniodd MM y byddai Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Mawrth. Dywedodd MM mai un o'r agweddau o fewn y llythyr fydd y ffioedd ar gyfer 2019/20. Gan hynny, efallai y byddai'n werth rhannu'r wybodaeth/llythyr drwy e-bost pan fydd ar gael cyn cyfarfod mis Mawrth.

**Cam Gweithredu A74: Rhannu Llythyr Archwilio Blynyddol 2017/18 drwy e-bost.**

**A75 2017/18: Adroddiad Cynnydd (SICA)**

Cyflwynodd JM yr adroddiad SICA, sy'n rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar gynnydd eu gwaith archwilio mewnol hyd 26 Tachwedd. Nodwyd eu bod wedi cwblhau chwech adolygiad ers yr adroddiad diwethaf, sef: yr Uned Rheoli Adnoddau, Adolygiad TGCh o gydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Cyflogres, Dilyniant interim,

Sgiliau arweinyddiaeth AD, ac adolygiad o'r System Rheoli Ansawdd. Roedd Atodiad A yn dangos cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun Archwilio Mewnol. Esboniodd JM eu bod ar y trywydd iawn ar gyfer gorffen eu hadolygiadau erbyn diwedd Mawrth, a bod cynnydd da'n cael ei wneud.

**A76 2017/18: Adroddiadau'r archwilwyr mewnol**

Mae pump adroddiad wedi'u cwblhau ers y cyfarfod pwyllgor diwethaf, felly maen nhw wedi'u dwyn i sylw'r pwyllgor er ystyriaeth.

**a) Adolygiad Gwerthuso Heddluoedd Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru - Adroddiad System Sengl Rheoli Fflyd**

Esboniodd MM eu bod wedi derbyn fersiwn gynharach o'r adroddiad hwn yn y cyfarfod blaenorol.

Canlyniad: Sicrwydd Cyfyngedig, gydag un argymhelliad blaenoriaeth 1, wyth argymhelliad blaenoriaeth 2, a deg argymhelliad blaenoriaeth 3. Esboniwyd mai adroddiad ar y cyd yw hwn a bod argymhellion ar y cyd ac argymhellion ar gyfer ardaloedd penodol. Nododd JM mai prif neges yr adroddiad oedd yr angen ar gyfer gwell cyfathrebu rhwng y tri heddlu, a fydd yn cael ei hwyluso drwy gyfarfodydd ar y cyd lle y gellir trafod materion sydd o ddiddordeb i bawb. Sicrhaodd JM fod HDP yn edrych yn gadarnhaol o ran yr argymhellion.

Dywedodd AK y gallai fod yn ddefnyddiol derbyn adolygiad dilynol er mwyn cynnig sicrwydd y bydd gwell cydweithio yn y dyfodol. Cytunodd MM y byddai hyn yn ddefnyddiol, ac roedd yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei grybwyll yn un o'r adroddiadau adolygiad dilynol interim.

Dywedodd JM y byddai adolygiad o hyn yn ffurfio rhan o'u hadroddiad dilynol ym mis Mawrth.

Holodd ME pa un ai a ddylai un o'r tri rheolwr fflyd cyfrifol fod â chyfrifoldeb cyffredinol. Dywedodd y CC y bu dod â'r tri heddlu at ei gilydd ar un system yn gam cadarnhaol ymlaen. Y ffordd ymlaen yn awr yw gwella cydweithio ac mae'r uchod yn rhywbeth fydd angen trafod, ond ar hyn o bryd, mae gan y tri gyfrifoldeb.

Dywedodd y PG fod HDP yn canolbwyntio ar swyddogaethau a gwella cydweithio. Bydd yn fuddiol dod nôl ac adolygu cynnydd yn y dyfodol er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol. Mae'r PG yn fodlon â chynnydd HDP hyd yn hyn.

Dywedodd MM ei fod yn fuddiol iawn cael Rheolwr Fflyd HDP yn y cyfarfod diwethaf er mwyn rhoi sicrwydd i'r panel.

**b) Adroddiad Sicrwydd o'r Gyflogres**

Canlyniad: Sicrwydd Sylweddol heb unrhyw argymhellion. Nododd JM fod hyn wedi'i adolygu'n flynyddol ers tair blynedd ac wedi derbyn y canlyniad hwn bob amser, gan ddangos safon uchel gyson.

Holodd y PSA p'un ai oes angen adolygiad archwilio flwyddyn nesaf os yw wedi derbyn sicrwydd sylweddol fel canlyniad yn gyson. Dywedodd JM fod hyn yn un o'r archwiliadau sy'n cael ei wneud yn flynyddol. Cydnabu fod hwn yn faes perygl uwch.

Dywedodd y PSA y gallai fod yn ddefnyddiol trafod yr uchod mewn cyfarfod sydd ar fin cael ei gynnal gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ein bod ni'n ystyried y meysydd mwyaf perthnasol.

**c) Adolygiad Dilynol – Interim**

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at gamau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr mewn perthynas ag argymhellion blaenoriaeth 1 a 2 a ddeilliodd o'r adolygiadau archwilio mewnol. Mae'r adolygiad yn dangos fod 14 argymhelliad wedi'u gweithredu a bod 16 argymhelliad yn aros.

Roedd JM eisiau nodi bod yr argymhellion mewn perthynas â fetio, a oedd i'w cwblhau erbyn 31 Ionawr, wedi derbyn dyddiad targed newydd, cynharach, sef 31 Rhagfyr 2018. Esboniodd y PG fod AHEM eisiau i'r dagfa o ran fetio gael ei glirio erbyn 31 Rhagfyr 2018. Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud er mwyn gweithio i'r dyddiad hwn, gydag adnoddau ychwanegol yn cael eu defnyddio er mwyn blaenoriaethu'r maes gwaith a gweithio'n hyderus tuag at y targed hwn. Esboniwyd fod y maes gwaith hwn wedi'i asesu o safbwynt risg a bod arfau diogelu ar waith er mwyn sicrhau bod fetio'n cael ei brosesu yn nhrefn blaenoriaeth.

Mewn perthynas â phwynt 12, sef yr argymhelliad sy'n weddill o'r Adolygiad o Ddyledwyr ar gyfer 2017/18, nododd MM fod dal trafferth o ran derbyn ymateb gan y Cyngor Sir mewn perthynas â'r sgriniau awdurdodi, sy'n cymryd llawer iawn o amser i lwytho. Dywedodd y CC fod hwn yn faes allweddol sydd angen ei ddatblygu. Dywedodd MM y byddai'n hapus i ysgrifennu llythyr at y cyngor i'w atgoffa bod angen ymdrin â'r mater

hwn. Dywedodd y CC y byddai'r Heddlu'n edrych ar ddatblygu hyn yn y lle cyntaf, ond y byddai'n rhoi gwybod i MM pe bai angen llythyr pellach.

Holodd AM ynglŷn â phwynt 18 a'r argymhelliad sy'n weddill o'r Rheolwyr AD – Dysgu a Datblygu 2017/18, sy'n nodi bod yr arweinydd prosiect wedi bod yn absennol o'r gwaith ar gyfnod salwch hirdymor a bod hyn wedi achosi'r dyddiad targed ar gyfer yr argymhelliad hwn i gael ei ddiwygio sawl gwaith. Dywedodd y CC eu bod nhw'n disgwyl datrysiad TG er mwyn gweithredu'r argymhelliad hwn.

Cytunodd y PG y byddai'n well nodi bod y mater yn parhau o bosibl, yn hytrach na nodi dyddiad, hyd nes i'r datrysiad TG gael ei gwblhau. Byddai hynny'n osgoi methu/diwygio'r dyddiad targed eto.

**Cam Gweithredu A76: Derbyn diweddariad gan yr heddlu mewn perthynas â dyddiad a ffordd ymlaen ar gyfer pwynt 18 o'r adroddiad Adolygiad Dilynol - Interim.**

**ch) Adolygiad Sicrwydd o'r Uned Rheoli Adnoddau**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gyda phedwar argymhelliad blaenoriaeth 2. Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer effeithlonrwydd y weithdrefn ar gyfer rheoli adnoddau o fewn uned arbenigol yr heddlu. Dangosodd y casgliad cyffredinol fod angen diffinio'r Uned Rheoli Adnoddau'n gliriach, gan egluro cyfrifoldebau'r Uned Rheoli Adnoddau a rhai'r rheolwyr llinell gweithredol. Mae angen rhoi arweiniad o ran lefelau staffio dewisol yr uned. Dylai adrannau eraill o'r sefydliad gwblhau nifer o'r tasgau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni gan yr Uned Rheoli Adnoddau er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau cyfyngedig yr uned, ac mae angen adolygu'r trefniadau cymorth ar gyfer y System Rheoli Dyletswydd.

Dywedodd y PG fod yr Uwch-arolygydd Craig Templeton wedi bod yn adolygu'r uned a bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn helpu i wella swyddogaethau'r Uned. Bydd argymhellion yr adroddiad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad cyffredinol.

Dywedodd MM fod yr adolygiad hwn yn un da iawn a oedd yn tynnu sylw at bryderon ac yn argymell ffyrdd o symud ymlaen. Mae'r archwiliad hwn yn dangos manteision cael adroddiad archwilio mewnol a'r camau cadarnhaol a'r llwyddiannau sy'n dilyn.

Yn dilyn trafodaeth gyda TIAA ac unigolion profiadol o sefydliadau eraill, dywedodd y PSA fod diwrnod cwmpasu wedi'i gynnal gyda TIAA a'r holl arweinwyr archwilio pwynt cyswllt sengl, lle trafodwyd pob un o'r archwiliadau a'r ffordd orau o lunio cwmpas yr archwiliadau. Y nod oedd ceisio defnyddio'r wybodaeth fewnol am rhai o'r meysydd sy'n achosi pryder i sicrhau bod y meysydd hyn yn derbyn sylw priodol er mwyn uchafu mantais pob adolygiad.

Ailadroddodd JM fod derbyn cyflwyniadau gan yr arweinwyr adran wir yn helpu i ddwyn ffocws i'r adolygiad ac yn cynorthwyo'r arweinwyr i ddatblygu adrannau.

**ch) Adolygiad TGCh o Gydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – Ymweliad 1**

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gyda chwe argymhelliad blaenoriaeth 2.
Esboniodd JM fod yr adolygiad hwn wedi'i rannu'n ddau ymweliad, gyda'r ymweliad nesaf yn cael ei gynnal ym mis Chwefror neu fis Mawrth 2019. Esboniodd JM fod yr argymhellion o fewn yr adolygiad wedi'u rhannu'n rhai sy'n berthnasol ar gyfer yr Heddlu yn unig, y rhai sy'n berthnasol ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd, a'r rhai sy'n berthnasol ar gyfer y ddau. Yr argymhelliad ar y cyd yw bod angen diweddaru'r Fframwaith Llywodraethu ar y Cyd er mwyn cynnwys cyfeiriad at y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018. O ran argymhellion sy'n berthnasol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn unig, canfu'r adroddiad fod angen adolygu'r Polisi Diogelu Data er mwyn sicrhau bod y matrics hysbysu'n cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion ar gyfer adrodd am achosion o dorri gofynion adrodd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a bod yr holl ddata personol sy'n cael ei ddal yn cael ei nodi fel bod modd gwneud penderfyniad ar reoli'r data a nodir yn y dyfodol.

Mae'r argymhellion ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd yn nodi fod angen diweddaru'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth a'i diwygio yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, a bod angen naill ai diwygio Polisi Diogelu Data Dyfed-Powys er mwyn cynnwys SCHTh, neu weithredu Polisi Diogelu Data CHTh. Cadarnhaodd y PS eu bod wedi dewis diwygio Polisi'r Heddlu i gynnwys CHTh a gweithredu un polisi ar y cyd.
Mewn perthynas â phwynt 12.18 o'r adroddiad, ychwanegodd MM y dylai'r Pwyllgor hefyd gael gwybod am unrhyw achos o dorri rheoliadau data. Ychwanegodd y PS fod y Bwrdd Plismona'n cael gwybod am bob achos o dorri rheoliadau data hefyd.

**A77 2017/18: Adroddiad Eithrio Peryglon Corfforaethol**

Esboniodd y PG na fu llawer o newidiadau ers y cyfarfod diwethaf, fodd bynnag, o ran pwynt 1- archwiliad meddygol fforensig o blant - mae cynnydd wedi'i wneud gan y PGC Richard Lewis a'r Prif Arolygydd Jayne Butler, a chytunwyd ar sefyllfa interim ar gyfer Tachwedd 2018, a fydd yn gweld darpariaeth archwiliadau meddygol o blant 13 oed ac iau. Bydd y rhain yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth Iechyd Caerdydd a'r Fro. Esboniodd y PG fod hyn yn bryder mawr ac mai darpariaeth dros dro yw hwn, gyda gwaith yn digwydd er mwyn darparu datrysiad tymor hirach.

Nododd y Panel fod hwn yn gam cadarnhaol ymlaen, fodd bynnag, dywedodd AK nad yw mynd â phlant i Gaerdydd yn ddelfrydol o bell ffordd. Sicrhaodd y PG y Pwyllgor y byddai'r Heddlu'n parhau i weithio ar y mater hwn.

Dywedodd y PSA y byddai angen adolygu a diwygio'r agweddau ariannol ar gyfer y gofrestr risg unwaith y bydd materion wedi'u cwblhau o ran y setliadau a'r praesept.

Mewn perthynas â phwynt 4 - Cofnodi Troseddau - Unplygrwydd Data Trosedd, esboniodd y PG eu bod wedi cael gwybod y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf a fyddai'n nodi gwelliant sylweddol o ran eu cyfradd cydymffurfio. Cydnabu fod angen gwelliannau pellach, ac o'r herwydd, holodd y CHTh pa un ai a ddylid dyrchafu'r perygl.

Dywedodd y PG fod gwaith craffu'n digwydd yn wythnosol er mwyn anelu tuag at y lefelau cydymffurfio o 95%. Bydd y PG yn edrych ymhellach ar y sgôr risg er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa'n briodol.

Dywedodd MM fod rhai meysydd risg newydd i'w nodi, gan gynnwys oblygiadau gadael yr UE. Dywedodd y PG eu bod nhw'n cael cyfarfodydd cenedlaethol mewn perthynas â gadael yr UE a'r oblygiadau posibl. Yn ddiweddar, penodwyd Prif Arolygydd i weithio drwy'r heriau o ran gadael yr UE. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo mewn perthynas â hyn. Mae'r CHTh yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd wedi'i wneud a chynlluniau sydd mewn grym ar gyfer lliniaru peryglon.

Dywedodd y CC fod perygl newydd ar draws y wlad yn ymwneud â Gwasanaethau Fforensig. Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried yn genedlaethol.

**Cam Gweithredu A77: Ychwanegu'r perygl Gwasanaethau Fforensig i'r gofrestr Peryglon Corfforaethol.**

Diolchodd MM i'r heddlu am yr adroddiad manwl.

**A78 2017/18: Cofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol – 14 Tachwedd 2018**

Edrychodd y Pwyllgor ar y camau gweithredu a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Dywedodd y CC mai'r prif agweddau a ddaeth o'r cyfarfod oedd mynd trwy'r camau gweithredu cytûn a ddeilliodd o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol llynedd, a oedd angen eu rhoi ar waith er mwyn gwella trefniadau llywodraethu. Nododd y CC na chodwyd unrhyw faterion difrifol, a bod hynny'n rhywbeth cadarnhaol. Yn ail, o fewn y cyfarfod, penderfynwyd y byddai is-grŵp yn cael ei sefydlu i edrych ar y matrics a'r 6 egwyddor craidd sy'n tanategu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

O ran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, dywedodd y PSA mai un o'r prif agweddau yw sicrhau ei bod hi'n ddogfen fyw y dylid ei hadolygu drwy gydol y flwyddyn.

**A78 2017/18: Ystyried materion yn codi o lythyr Archwilio 2017/18**

Yn ogystal â'r hyn mae'r Pwyllgor wedi ei weld o'r blaen, esboniodd y PSA y byddai'r llythyr hwn nawr yn cynnwys ymatebion y Rheolwyr i'r materion y daethpwyd o hyd iddynt. Byddai'r materion a'r ymatebion hyn yn cael eu hystyried o ran yr archwiliad interim sydd wedi'i drefnu ar gyfer diwedd Ionawr 2019 ac ar gyfer cwblhau'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mewn perthynas â'r Cronfeydd Ailbrisio, nododd MM fod angen hyn ar gyfer yr Archwiliad Interim a fydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2019.

Dywedodd y CC fod hyn yn rhywbeth sydd angen datblygu cyn mis Ionawr, yn arbennig o ystyried eu bod nhw'n colli aelod staff y mis hwnnw. Holodd y CHTh pa un ai a yw gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â dod o hyd i rywun arall ar gyfer y rôl. Cytunodd y PG y byddai'n ddefnyddiol cael hysbyseb yn barod i'w gyhoeddi unwaith y bydd popeth wedi'i gwblhau'n ffurfiol o ran y daliwr swydd presennol yn gadael ac ati.

O ran adnoddau cyllid, dywedodd y PSA fod dau gyfrifydd wedi cychwyn ar eu gwaith ac y byddai'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn dechrau ddydd Llun.

Mewn perthynas â'r pwynt ynglŷn â'r Taflenni Rheoli Trysorlys, nododd JM eu bod wedi cynnal adolygiad Rheoli Trysorlys yr wythnos hon a bod yr awgrym wedi'i weithredu heb fod unrhyw faterion pellach yn cael eu nodi.

Nododd MM ei fod yn gadarnhaol clywed bod yr awgrymiadau'n cael eu gweithredu, gyda materion yn cael eu datrys.

## A79 Unrhyw Fusnes Arall

### a) Recriwtio i'r Cyd-bwyllgor Archwilio

Esboniodd y PS nad oeddent wedi derbyn unrhyw geisiadau ar ôl rhoi ail gynnig ar hysbysebu'r rôl yn anffodus.

Esboniwyd eu bod wedi hysbysebu'r rôl i gychwyn am dair wythnos, heb fod unrhyw fynegiannau o ddiddordeb yn cael eu dangos. Aethant ymlaen i hysbysebu'r rôl am dair wythnos arall, ond ni ddangoswyd unrhyw ddiddordeb yn ystod y cyfnod hwnnw chwaith.

Awgrymodd y PS wrth y Pwyllgor y dylent barhau â hysbysiad agored, a dal ati i hysbysebu'r rôl ar y wefan, mewn cylchlythyrau, yn ystod diwrnodau ymgysylltu ac ar gyfryngau cymdeithasol ac ati.

Holodd AM pa un ai a fyddai dyddiad cau'n cael ei osod ar yr hysbyseb. Cadarnhaodd y PS na fyddai dyddiad cau ar yr hysbyseb.

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

**Cam Gweithredu A79: Cyhoeddi hysbyseb agored sy'n hysbysebu'r cyfle i ddod yn aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio.**

### b) Y Diwrnod Hyfforddi Blynyddol

Cadarnhaodd y PSA fod ganddynt agenda drafft ar gyfer y diwrnod hyfforddi ar 19 Chwefror 2019 yn Llandrindod, sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd. Esboniwyd eu bod nhw'n gobeithio cael y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i hwyluso'r broses eto, a'u bod nhw'n gobeithio cael cyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Holodd ME pa un ai a fyddai aelod o AHEM yn bresennol.

Esboniodd CB fod y dyddiad wedi'i rannu â SC o AHEM, ond gan fod y dyddiad yn gwrthdaro ag archwiliad, nid yw'n debygol y bydd SC yn medru bod yn bresennol.

Nododd MM fod cael SC yn y cyfarfod diwethaf yn werthfawr iawn ac y byddai'n fuddiol cael rhywun yn bresennol yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio bob 6 mis, neu yn ôl yr angen.

Dywedodd y PG y gallai fod yn ddefnyddiol cysylltu â chydweithiwr SC, y Prif Uwch-arolygydd Charlie Armstrong, i weld pa un ai a fyddai modd iddo fod yn bresennol mewn cyfarfodydd ac ati yn y dyfodol pe na bai SC ar gael.

Gadawodd JM y cyfarfod.

### c) Cytundeb Archwilio Mewnol

O ran y Cytundeb Archwilio Mewnol, esboniodd y PSA fod Heddlu De Cymru'n arwain ar hyn fel archwiliad cydweithredol. Bu gweithgarwch dros yr wythnosau diwethaf mewn perthynas â manylebau tendr a chwestiynau ar gyfer y gwerthusiad. Maen nhw'n aros yn awr am gadarnhad fod yr holl sylwadau wedi'u casglu cyn y gellir gweithredu'r cam nesaf.

Gofynnodd MM am gael gwybod pe bai angen cynrychiolydd o'r Cyd-bwyllgor archwilio ar gyfer yr ailbrisio.

Dywedodd y PSA fod nifer y cynrychiolwyr wedi'i drafod, a gan fod y pedwar heddlu yng Nghymru'n cymryd rhan, awgrymwyd y byddai cynrychiolaeth yn cael ei gyfyngu i ddau fesul heddlu. Mae'n debyg mai un aelod o'r heddlu ac un aelod o SCHTh fydd y cynrychiolwyr.

Dywedodd MM ei fod yn deall y rheswm dros gyfyngu nifer y llefydd i ddau fesul ardal, ac awgrymodd y gallai aelodau rhoi adborth i'r rhai fydd yn bresennol ymlaen llaw.

Dywedodd y PSA y bydd hi'n sicrhau fod pob dim yn mynd rhagddo ac yn cael ei ddatblygu fel y trefnwyd yn flaenorol.

**Cam Gweithredu A79: Bydd y PSA yn sicrhau bod y Cytundeb Archwilio Mewnol yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad.**

Doedd dim busnes pellach i'w drafod.

Diolchodd MM i bawb am ddod i'r cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 15:25awr**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Mawrth 2019**

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 30 TACHWEDD 2018 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | |
| **A74 2017/18** | **Yn amodol ar y diwygiad a nodwyd, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.** | **Cwblhawyd** |

| CAMAU GWEITHREDU'N CODI O GYFARFOD 30 TACHWEDD 2018 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan |
| **A74 2017/18** | **Cywiro'r camgymeriad teipio ar waelod tudalen 11 o'r copi Saesneg o'r cofnodion fel y trafodwyd.** | **SCHTh** |
| **A74 2017/18** | **Rhannu Llythyr Archwilio Blynyddol 2017/18 drwy e-bost.** | **SCHTh** |
| **A76 2017/18** | **Derbyn diweddariad gan yr heddlu mewn perthynas â dyddiad a ffordd ymlaen ar gyfer pwynt 18 o'r adroddiad Adolygiad Dilynol - Interim.** | **Yr Heddlu** |
| **A77 2017/18** | **Ychwanegu'r perygl Gwasanaethau Fforensig i'r gofrestr Peryglon Corfforaethol.** | **CC** |
| **A79 2017/18** | **Cyhoeddi hysbyseb agored sy'n hysbysebu'r cyfle i ddod yn aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio.** | **SCHTh** |
| **A79 2017/18** | **Bydd y PSA yn sicrhau bod y Cytundeb Archwilio Mewnol yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad.** | **PSA** |

| CAMAU GWEITHREDU O GYFARFODYDD BLAENOROL SYDD DAL YN MYND RHAGDDYNT | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan |
| **A38 2017/18** | **Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ar Bwyllgorau Archwilio a dyletswyddau'r PSA gael eu cyhoeddi.** | **Dal yn mynd rhagddo** |
| **A60 2017/18** | **CF i gysylltu ag ardaloedd eraill yng Nghymru i ofyn am eu barn ynghylch rhannu eu canfyddiadau mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg mewn adroddiad cymharol.** | **Dal yn mynd rhagddo** |